# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Cael Clust i'ch Neges

### Trosolwg

1. **Dewis eich neges**
2. **Adnabod eich cynulleidfa**
3. **Mireinio eich neges**
4. **Cyfleoedd ar gyfer newid**
5. **Targedu eich neges**
6. **Strategaeth a thactegau**

I gyflwyno ymgyrch effeithiol dros newid polisi yng Nghymru, mae angen meddwl yn ofalus cyn dechrau. Mae'n bwysig cael 'gofynion' eglur a deall beth yn gwmws rydych chi'n ceisio ei newid, yn ogystal â gwybod pwy yw'r unigolion penodol sydd â'r pŵer i weithredu'r newid rydych chi'n gofyn amdano.

Mae'n bwysig meddwl am y beth, pam a sut yn eich neges, yn ogystal â meddwl yn ofalus am sut i fapio eich cynulleidfaoedd dan sylw mewn modd cynhwysfawr a'i mireinio i fod mor effeithiol â phosibl.

Gallwch chi feddwl yn strategol wedyn am bwy sy'n gwneud y penderfyniadau, pwy sydd â'r gallu i wneud y newid i'r polisi, a pha gyfleoedd neu dactegau y gallwch chi eu defnyddio i gyfleu eich neges i'r bobl gywir, yn y ffordd gywir.

## Dewis eich neges

Y peth cyntaf sydd angen i chi benderfynu yw beth ydych chi eisiau ei ddweud, a pham. Mae gan benderfynwyr amrywiaeth eang o gyfranogwyr yn cystadlu am eu sylw, a byddant dim ond yn gallu ymhél yn iawn â detholiad bychan ohonynt - ac mae'r detholiad sy'n llwyddo i sbarduno'r penderfynwyr i weithredu'n llai fyth.



Llun: Pobl yn edrych ar gyfryngau cymdeithasol

Mae angen i chi wybod beth yn union yw'r broblem rydych chi'n ceisio'i datrys, pam mae angen ei datrys, a beth yn gwmws ydych chi'n ei awgrymu fel datrysiad i'r broblem hon. Os yw eich mudiad, er enghraifft, yn darparu gwasanaethau ledled nifer o ardaloedd awdurdod lleol sydd â phrosesau comisiynu neu fodel cyllido amrywiol iawn, gallech ddatblygu gofyniad eglur o ran yr angen i ddatblygu canllawiau ar y gydberthynas rhwng awdurdodau lleol ac elusennau yn eich sector, neu ofyn am fodel cyllido cenedlaethol sy'n seiliedig ar arferion da sydd eisoes ar waith. A ydych chi'n gofyn i awdurdodau lleol newid y ffordd y maen nhw'n gweithio, neu i Lywodraeth Cymru newid polisi cenedlaethol?

## Adnabod eich cynulleidfa

Mae'n bwysig adnabod eich cynulleidfa – pwy ydych chi'n ei dargedu a pham.

- A ydych chi'n ymhél â chyfathrebiadau cyhoeddus mwy traddodiadol, gyda'r nod o gyrraedd cymaint â phosibl o bobl?
- A yw'n ymgyrch gyhoeddus wedi'i hanelu at ran benodol o gymdeithas a allai fod yn fwy tebygol o ymateb i'ch amcanion, neu'r rheini sy'n anghytuno â chi?
- Neu ai'ch nod yw cyfathrebu'n strategol â nifer bychan o benderfynwyr?

Gall y cynulleidfaoedd gwahanol hyn gorgyffwrdd. Er enghraifft, efallai eich bod am gynnal ymgyrch gyhoeddus sy'n anelu at godi proffil mater, er mwyn annog penderfynwyr i ganolbwyntio ar eich mater.

Waeth beth yw'r nod, mae'n bwysig bod gennych chi syniad clir o bwy rydych chi'n ei dargedu â'ch neges cyn lansio eich ymgyrch. Mae'n werth mapio eich cynulleidfa neu randdeiliaid allweddol wrth gynllunio'ch ymgyrch a mireinio'ch neges yn unol â hynny.

## Mireinio eich neges

Unwaith rydych chi wedi penderfynu ar yr elfennau beth, pam a sut sylfaenol yn eich neges, mae'n bwysig eich bod yn ei mireinio. Bydd eich neges yn wahanol, yn dibynnu ar y gynulleidfa.

**Gwybodaeth**
Os ydych chi'n lansio ymgyrch gyhoeddus, bydd y ffordd y byddwch chi'n mireinio'ch neges yn wahanol, yn dibynnu ar y gynulleidfa a'r cyfrwng.

Er enghraifft, bydd siŵr o fod angen mireinio negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol i fod yn rhai 'y gellir eu rhannu'. Bydd erthygl cyflwyno barn mewn papur newydd neu gylchgrawn yn cael ei mireinio yn ôl natur y cyhoeddiad, a lefelau gwybodaeth ei darllenwyr – byddai erthygl mewn cylchgrawn masnach arbenigol yn mynd i lawer mwy o fanylder nag erthygl mewn papur tabloid sy'n cyflwyno'r pwnc.

Mae naws y darn yn bwysig wrth dargedu penderfynwyr – maen nhw'n fwy tebygol o fod yn adeiladol os byddwch chi'n eu cyfarch mewn modd adeiladol a pharchus.

Rhaid i dystiolaeth gref fod yn rhan bwysig o'ch ymgyrch. Ni fydd penderfynwyr yn seilio penderfyniadau polisi ar amheuon neu gredoau personol, hyd yn oed os ydyn nhw o'r un farn â chi. Yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yn rhaid iddynt gyfiawnhau'r penderfyniad, o fewn eu mudiad ac yn allanol i'r cyhoedd.

Pan fydd gennych chi dystiolaeth gref, mae astudiaethau achos a straeon yn ddefnyddiol a gallant fod yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo'ch syniad. Mae cyfuniad o awgrymiad polisi â thystiolaeth gref sy'n gallu gwrthsefyll gwaith craffu arbenigol, a neges sy'n seiliedig ar astudiaethau achos pwerus yn gydrannau pwysig o unrhyw ymgyrch lwyddiannus.

Mae bod yn eglur ac yn gryno yn hanfodol wrth fireinio eich neges. Bydd y mwyafrif o bobl yn gallu dwyn i gof araith Donald Trump, 'Make America Great Again' ar unwaith, ond yn cael anhawster cofio slogan Hillary Clinton.

Gwnaeth poster answyddogol beri i ymgyrch 2008 Barack Obama gyrraedd lefel newydd o grynoder gyda'r neges – 'Gobaith'.

## Cyfleoedd ar gyfer newid

Mae'n bwysig cael dealltwriaeth dda o rythm a strwythurau'r llywodraeth a gwleidyddiaeth. Mae digwyddiadau'n gymhelliant gweithredu mawr ym myd gwleidyddiaeth. Gall y rhain fod yn ddigwyddiadau ysbeidiol a manteisgar, fel y mater rydych chi'n ymgyrchu drosto yn dod yn brif stori ac yn brif ffocws sylw gwleidyddol ar gyfer cylchred newyddion. Bydd eraill yn fwy strwythuredig, ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r digwyddiadau rheolaidd hyn a sicrhau bod eich neges yn cael ei bwydo i mewn iddynt.

O leiaf unwaith bob pum mlynedd, bydd pleidiau gwleidyddol Cymru yn llunio'u maniffestos ar gyfer yr etholiadau i ddod yn y Senedd, a bydd o leiaf un o'r maniffestos hyn yn debygol o gael ei addasu ar gyfer rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r gystadleuaeth i gael ei gynnwys yn uchel felly, ond mae'n ddigwyddiad rheolaidd sy'n gallu cael ei ddefnyddio fel un o'r llwybrau mwyaf uniongyrchol i gael polisi wedi'i roi ar waith.

Felly, mae'n werth ystyried mapio'r cyfleoedd sydd gennych chi i gael clust i'ch neges mewn modd mwy effeithiol. Mae deddfwriaeth newydd, trafodaethau ynghylch cyllidebau, ymgynghoriadau llywodraethol ac ymchwiliadau pwyllgor y Senedd i gyd yn ffyrdd o fwydo'ch neges i mewn i'r system benderfynu mewn modd mwy effeithiol.

Gall rhai cyfleoedd arwain at rai eraill – er enghraifft, caiff mudiadau sy'n cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliadau pwyllgor y Senedd eu gwahodd yn aml i roi tystiolaeth yn bersonol, a fydd yn eich galluogi i gyfleu eich neges yn uniongyrchol i grŵp o gynrychiolwyr etholedig.

## Targedu eich neges

Mae dod o hyd i'ch cynulleidfa'n bwysig. Unwaith y gallwch chi fynegi'r hyn rydych chi'n ceisio'i ddatrys, pam ydych chi'n ceisio'i ddatrys, a sut rydych chi'n cynnig ei ddatrys yn eglur, bydd y penderfynwyr sydd yn y safle gorau i ddatrys y broblem siŵr o fod yn fwy eglur i chi.

Fodd bynnag, gallai'r gofynion polisi fod yn fwy dryslyd os bydd angen mwy nag un unigolyn i wneud penderfyniad. Er enghraifft, byddai trechu digartrefedd drwy adeiladu mwy o dai yn gofyn am fewnbwn y Gweinidog Tai a phobl o'r awdurdod lleol, fel arweinwyr cyngor ac aelodau cabinet dros dai.

Gallai buddsoddiad mawr hefyd fod y tu hwnt i'r gyllideb gyfredol sydd gan y Gweinidog Tai, a fydd yn gofyn am fewnbwn y Gweinidog Cyllid a hyd yn oed Prif Weinidog Cymru. Mae hon yn enghraifft eithafol, ond mae'n dangos pa mor bwysig yw mapio rhanddeiliaid yn effeithiol a sicrhau nad yw eich neges yn cyrraedd clust fyddar am nad ydych chi'n targedu'r bobl gywir.

## Strategaeth a thactegau

Unwaith rydych chi wedi penderfynu ar eich neges a'i mireinio, ac wedi pennu'ch cynulleidfa, mae'n bryd meddwl yn strategol am sut gallwch chi 'greu cynnwrf' gyda'ch neges.

**Gwybodaeth**

Un dechneg gyffredin mewn ymgyrchoedd yw mynd o ris i ris. Os yw'r hyn rydych chi'n gofyn amdano yn rhy uchelgeisiol, meddyliwch yn realistig am sut gallwch chi symud yn agosach at eich nod terfynol. Yn hytrach na cheisio mynd o A i Y, gallwch fapio sut i fynd o A i B, ac yna i C.

Gall cefnogaeth fod yn ffordd dda o greu cynnwrf hefyd. Mae gan rai pobl leisiau cryfach a phroffiliau uwch nag eraill, felly gallant greu mwy o gynnwrf. Meddyliwch - a oes gan eich ymgyrch unrhyw gefnogwyr proffil uchel? Gallent fod yn wleidyddion neu hyd yn oed yn bobl enwog. Os ydych chi'n cael anhawster dod o hyd i gefnogaeth, gallech geisio defnyddio'r cam o ris i ris, gan ddechrau gyda chynghorwyr lleol, er enghraifft, cyn symud i fyny i gefnogaeth gan Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd.

Wrth feddwl am gefnogaeth, efallai yr hoffech chi hefyd feddwl am sefydlu clymbleidiau o gymorth, gan weithio gyda mudiadau eraill tuag at yr un nod. Ystyriwch a fyddai mudiadau eraill sy'n gweithio yn eich ardal yn fodlon cytuno i gyfuno'u gofynion nhw â'ch gofynion chi er mwyn creu llais uwch. Er enghraifft, mae Amser i Newid Cymru yn ymdrech ar y cyd gan elusennau iechyd meddwl i roi terfyn ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl. Mae Cynghrair Canser Cymru wedi cyhoeddi maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gyflwyno llais cryf a chyfunol ar bolisi canser yng Nghymru.

Os mai elusen ydych chi, gall defnyddwyr gwasanaethau neu eu teuluoedd fod yn ased defnyddiol. Byddan nhw'n gallu cyfleu safbwynt personol pwerus mewn modd didwyll, yn hytrach na chyflwyno gwybodaeth llawn jargon fel y mae pobl broffesiynol yn tueddu ei wneud. Mae'n bwysig cael elfen ddynol i'ch neges, oherwydd bydd profiad byw rhywun yn galluogi cynulleidfaoedd i ddangos empathi ac uniaethu â'r neges, gan ei gwneud yn fwy perthnasol iddynt.

Mae arbenigwyr yn bwysig, ond meddyliwch am y cyd-destun ac a fyddai apelio at y teimladau neu ddefnyddio rhesymeg yn fwy pwerus.

Un rheswm pam mae astudiaeth achos sy'n cynnwys pobl go iawn yn ddefnyddiol yw oherwydd y maes orlawn sy'n cystadlu am sylw. Yn hytrach na chyflwyno dadl yn unig, mae'n bwysig meddwl yn arloesol a darparu cynnwys diddorol sy'n torri drwy'r maes orlawn hwn – a gall astudiaethau achos cynhyrfiol dorri drwy'r sŵn.

Mae'r dyddiau o gredu bod anfon dogfennau polisi neu adroddiadau papur hirwyntog i benderfynwyr a gwleidyddion yn ddull effeithiol o gael clust i'ch neges wedi hen fynd heibio. Meddyliwch am ffyrdd eraill o gyfleu eich neges, a ffyrdd eraill o dynnu eu sylw a'u cymell i ddeall mwy am y pwnc dan sylw. Mae cynnwys arloesol a diddorol yn bwysig, yn ogystal â darparu cynnwys y gellir ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

I grynhoi, mae nifer o bethau pwysig i'w hystyried wrth lunio neges er mwyn cyflawni newid. Mae angen i chi wybod beth rydych chi'n ceisio'i ddatrys a pham, yn ogystal â sut yn gwmws rydych chi'n cynnig ei ddatrys. Mae angen i chi adnabod eich cynulleidfa a gwybod pwy i dargedu, a pham eich bod wedi penderfynu eu targedu. Unwaith y bydd gennych chi'r wybodaeth hon, gallwch chi loywi a mireinio eich neges i'w gwneud mor gymhellol â phosibl. Yna, gallwch chi feddwl yn strategol ac yn dactegol ynghylch lledaenu eich neges er mwyn cyflawni cymaint â phosibl o effaith.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.